Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

Cyngor Gweithrediadol Nodyn

# Adroddiadau amseroldeb 12 mis

## Rheoliad 13, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020

## Rheoliad 19, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020

Rhagfyr 2022

# 1. Cefndir

1.1. Mae Rheoliad 13 *Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020* and Rheoliad 19 *Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020* yn gofyn i'r awdurdod priodol (AP) ddweud wrth y SAYH a'r corff plimona lleol (LPB) pan fydd ymchwiliad lleol ar agor am fwy na 12 mis (a phob chwe mis wedi hynny). Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau cwyn, ymddygiad a marwolaeth neu anaf difrifol (DSI).

1.2. Mae'n rhaid i'r SAYH hefyd adrodd ar ei ymchwiliadau ei hun (annibynnol ac wedi'u cyfarwyddo) i'r corff plismona lleol a phrif swyddog y llu perthnasol (heblaw bod ymddygiad y prif swyddog o dan ymchwiliad).

1.3. Mae'n rhaid i'r adroddiad amlinellu'r:

- dyddiad y cafodd y gŵyn ei gwneud neu'r dyddiad y daeth y mater ymddygiad neu DSI i sylw'r AP
- dyddiad y cafodd unrhyw asesiad dwyster ei roi
- cynnydd yr ymchwiliad
- amcangyfrif o bryd y disgwylir i adroddiad yr ymchwiliad gael ei gyflwyno i'r AP
- rheswm dros yr hyd o amser a gymerir i gwblhau'r ymchwiliad
- crynodeb o gamau nesaf arfaethedig i'w dynnu i ben

1.4. Mae'r adroddiadau yn darparu cyfle i bawb ddeall y rhesymau am hyd yr ymchwiliadau a chreu cyfleoedd dysgu ynghylch ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hyd. Mae asesu a chraffu ar y rhesymau yn arddangos i'r cyhoedd a rhanddeiliaid bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu sicrwydd dros amseroldeb ymchwiliad.

# 2. Y cyfnod perthnasol

2.1. At ddibenion Rheoliad 13 a Rheoliad 19, mae'r cyfnod perthnasol yn dechrau ar y dyddiad mae'r gŵyn yn cael ei gwneud arno, neu'r dyddiad y daeth y mater i sylw'r AP ar gyfer materion ymddygiad a DSI (y man cychwyn). Mae'r ddyletswydd o dan Reoliad 13 a Rheoliad 19 yn dod i ben pan fydd y mater yn cael ei gyflwyno i'r AP (mae'r ymchwiliad wedi dod i ben).

2.2. Mae'r gofyniad yn gymwys i faterion o dan drefn 2020 yn unig. Er enghraifft, materion cwyn, ymddygiad a DSI sy'n dod i sylw'r AP ar neu ar ôl 1 Chwefror 2020.

2.3. Sabwynt y SAYH yw nad yw'r man cychwyn perthnasol yn gallu newid a bydd hyn yn aros yr un peth. Cafodd y safbwynt hwn ei gyrraedd wedi ystyried sut i gymhwyso gofynion y rheoliadau i gylchoedd bywyd amrywiol achos. Lle mae

achos yn mynd trwy brosesau gwahanol megis adolygiad, ail ymchwiliad, neu ailagor ymchwiliad, ni all fod unrhyw 'ailosod' o'r cloc gan nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer hyn.

2.4. Mae'n rhaid i adroddiad ychwanegol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd pob chwe mis.

2.5. Y bwriad y tu ôl i Reoliad 13 a Rheoliad 19 yw monitro amseroldeb, hyrwyddo atebolrwydd ac annog y rheini sy'n ymchwilio i gwynion a materion eraill i ddod ag ymchwiliadau (a'r materion maen nhw'n berthynol iddynt) i gasgliad amserol. Dylai esboniadau o ansawdd da gael eu rhoi i bob parti lle nad yw hyn yn bosibl. Nid oes gwahaniaeth pa brosesau mae'r achos wedi mynd trwyddynt. Dylai'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at estyn yr amser mae wedi ei gymryd i ddod â'r mater i ben, gael eu esbonio yn yr adroddiad

# 3. Anfon adroddiad amseroldeb

3.1. Dylai'r holl ymchwiliadau gael eu dwyn i ben mor gyflym â phosibl. Gall ymchwiliadau maith gael effaith andwyol ar deuluoedd ac achwynwyr, swyddogion gwrthrych/aelodau staff heddlu a phartïon sydd â diddordeb. Gallant hefyd danseilio hyder cyhoeddus yn yr heddlu. Gall fod rhesymau dilys dros yr ymchwiliad yn bod yn faith megis cymhlethdod arwyddocaol, amgylchiadau heriol neu'r lefel o ddifrifoldeb sy'n gofyn am archwiliad manwl. Nid yw'r cyfnod perthnasol yn derfyn ac mae'n rhaid iddo beidio â chael effaith negyddol ar sut mae ymchwiliad yn cael ei gynnal.

3.2. Cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n ymchwilio yw darparu'r adroddiad a'r esboniadau gofynnol, beth bynnag yw'r prosesau sydd wedi digwydd yn flaenorol. Dylai'r esboniad gyfeirio at y gronoleg o sut yr ymdriniwyd â'r mater.

3.3. Pan nad yw ymchwiliad wedi cael ei gwblhau o fewn y cyfnod perthnasol, mae'n rhaid i'r AP ddarparu yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol, y wybodaeth a amlinellir ym mharagraff 1.3 uchod. Dylai'r adroddiad gael ei anfon at y Corff Plismona Lleol perthnasol a'r SAYH trwy e-bost at oversight@policeconduct.gov.uk.

3.4. Dylai'r adroddiad amlinellu natur y gŵyn, cynnydd yr ymchwiliad hyd yn hyn, y rhesymau dros yr ymchwiliad yn mynd dros 12 mis a'r camau nesaf arfaethedig. Mae Atodiad A yn darparu enghraifft o adroddiad templed amseroldeb.

3.5. Mae'n rhaid i'r AP anfon copi o'r adroddiad (neu'r wybodaeth ynddo) at yr achwynydd, unrhyw unigolyn sydd â diddordeb a'r unigolyn mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad (os o gwbl). Nid oes angen i'r wybodaeth gael ei roi i'r unigolyn y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad os yw'n ymddangos bod yr AP y gallai gwneud hynny ragfarnu'r ycmchwiliad neu unrhyw ymchwiliad arall. Nid oes

angen chwaith iddi gael ei ddarparu i'r achwynydd nac unrhyw unigolion sydd â diddordeb lle mae eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth yn gymwys.

3.6. **Ymchwiliadau ymddygiad**

Lle mae mater ymddygiad wedi cael ei gofnodi o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu Act 2002* (y PRA), mae Rheoliad 13 o *Reoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020* yn gymwys.

Mae Rheoliad 13 yn datgan bod adroddiad amseroldeb 12 mis yn ofynnol i gael ei anfon at y corff plismona lleol (dim ond lle mae'r AP yn Brif Swyddog), SAYH, yr achwynydd ac unrhyw barti â diddordeb.

Mae Rheoliad 19 o *Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020* yn gymwys i gynnal ymchwiliadau sydd ddim yn cael eu cyflawni o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* ond wedi'i gyflawni o dan Rhan 3 *Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020*. Mae Rheoliad 19 yn datgan bod adroddiad amseroldeb 12 mis yn ofynnol yn unig i'w anfon at y corff plismona lleol (nid SAYH) ac i'r swyddog dan sylw, yn amodol ar y prawf niwed.

3.7. Isod mae tabl o senarios a chyfarwyddyd ar sut i gymhwyso'r rheoliadau. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac fe'i bwriedir fel canllaw.

| **Senario** | **Adroddiad yn ofynnol?** | **Esboniad** |
|---|---|---|
| **Heblaw amtrwy ymchwiliad**<br>Mae achos yr ymdrinnir ag ef ac eithrio trwy ymchwiliad (OTBI) yn mynd dros y cyfnod 12 mis. | ✗ | Mae'r rheoliadau yn gymwys i ymchwiliadau yn unig. Bwriedir i ymdrin arall fod yn ffordd gyflym a chymesur o ymdrin â chwyn. Ni ddylai datrys cwyn yn y ffordd hon fynd dros 12 mis. |
| **OTBI i ymchwiliad**<br>Mae ymdriniaeth ag achos yn dechrau ac eithrio trwy ymchwiliad (OTBI) ac mae'n symud i mewn i ymchwiliad, gan gymryd yr achos dros 12 mis. | ✓ | Mae'r cyfnod perthnasol yn gymwys i'r dyddiad y cafodd y gŵyn ei wneud neu dyddiad y daeth y mater i sylw'r AP, nid y dyddiad y dechreuodd yr ymchwiliad. Bydd adroddiad yn ofynnol. |
| **Cyfnod yr adolygiad**<br>Cafodd yr ymchwiliad ei gwblhau o fewn 12 mis ond mae'r amser a dreuliwyd mewn adolygiad yn golygu bod yr achos ar agor am fwy na 12 mis. Mae'r adolygiad yn parhau neu ddim yn cael ei gadarnhau. | ✗ | Nid oes adroddiad yn ofynnol oherwydd bod y mater wedi cael ei gyflwyno i'r AP a bod yr ymchwiliad wedi dod i ben. |

| Senario | Adroddiad yn ofynnol? | Esboniad |
|---|---|---|
| **Cyfnod yr adolygiad - adolygiad wedi'i gadarnhau** Cafodd yr ymchwiliad ei gwblhau o fewn 12 mis ond mae'r amser a dreuliwyd mewn adolygiad yn golygu bod yr achos ar agor am fwy na 12 mis. Mae'r adolygiad wedi'i gadarnhau ar gyfer ail ymchwiliad. | ✓ | Mae adroddiad yn ofynnol oherwydd bod y cyfnod perthnasol yn parhau. Mae'r man cychwyn (dyddiad y cafodd y gŵyn ei wneud) yn aros yr un peth. Mae'r cloc yn parhau ac mae adroddiad yn ofynnol os yw'r amser a dreulir mewn adolygiad yn golygu bod yr achos nawr dros 12 mis oed ac mae'r adolygiad wedi cael ei gadarnhau ar gyfer ail ymchwiliad. Dylai'r adroddiad hwn gael ei anfon cyn gynted â phosibl ar ôl y penderfyniad cadarnhau adolygiad. Gall y wybodaeth yn yr adroddiad esbonio'r ffactorau a phrosesau perthnasol sy'n effeithio ar amseroldeb. |
| **Adolygiad wedi'i gadarnhau – ail ymchwiliad** Daeth yr ymchwiliad i ben o fewn 12 mis ond o ganlyniad i benderfyniad adolygiad wedi'i gadarnhau, mae'r ail ymchwiliad yn mynd â'r achos dros 12 mis. | ✓ | Mae adroddiad yn ofynnol oherwydd bod y cyfnod perthnasol yn mynd heibio. Mae'r man cychwyn (dyddiad y cafodd y gŵyn ei wneud) yn aros yr un peth.<br>Lle mae mater yn cael ei ddychwelyd am ymchwiliad ychwanegol, nid yw'r cloc yn ailgychwyn ond mae'n parhau. Gall y wybodaeth yn yr adroddiad esbonio'r ffactorau a phrosesau perthnasol sy'n effeithio ar amseroldeb. |
| **Ymchwiliadannibynnol yn cael ei ailbenderfynu** Mae ymchwiliad annibynnol SAYH yn cael ei ailbenderfynu i ymchwiliad lleol. Mae'r ymchwiliad lleol yn mynd dros 12 mis. | ✓ | Mae adroddiad yn ofynnol oherwydd bod y cyfnod perthnasol yn mynd heibio. Mae'r man cychwyn (daeth mater dyddiad i sylw'r AP) yn aros yr un peth. Lle mae mater yn cael ei ailbenderfynu, mae'r cloc yn parhau. Gall y wybodaeth yn yr adroddiad esbonio'r ffactorau a phrosesau perthnasol sy'n effeithio ar amseroldeb. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymchwiliad wedi'i atal**<br>Mae mater yn cael ei atal am rywfaint o'r cofnod perthnasol neu'r cwbl ohono, ac mae'r ymchwiliad wedi cael ei oedi neu nid yw'n gallu cael ei symud ymlaen. |  | Mae adroddiad yn ofynnol Dylai'r wybodaeth yn yr adroddiad esbonio'r mater troseddol cysylltiedig a'r amserlenni amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau. Lle'n bosibl, ac os oes rhannau o'r gŵyn nad ydynt yn perthyn i'r materion troseddol, gallai honiadau gael eu rhannu i alluogi materion anghysylltiedig i gael eu symud ymlaen heb oedi. |

| Senario | Adroddiad yn ofynnol? | Esboniad |
|---|---|---|
| **Wedi'i atal– dim penderfyniad**<br>Mae mater yn cael ei atal am dros 12 mis ond nid yw'r AP wedi gwneud penderfyniad eto a ddylai'r gŵyn fod yn destun ymchwiliad. |  | Pryd bynnag y derbynnir cwyn, dylai'r AP wneud asesiad cychwynnol i benderfynu os yw'r mater yn gofyn am gofnodi, os yw atgyfeiriad at y SAYH yn ofynnol a sut y dylai'r mater gael ei drin, gan gynnwys os oes ymchwiliad yn ofynnol. Nid yw atal cwyn yn golygu y dylai'r penderfyniadau arferol ynglŷn â sut y dylai'r mater gael ei symud ymlaen gael eu gohirio hefyd.<br><br>Mae adroddiad yn ofynnol pan fernir bod ymchwiliad yn briodol, ac mae achos troseddol perthynol sy'n golygu na all y gŵyn gael ei symud ymlaen ac mae'r mater yn mynd dros 12 mis. |

| | | |
|---|---|---|
| **Dim camau gweithredu**<br>Mae cwyn wedi cael ei dderbyn ac mae'r llu wedi ymdrechu'n aflwyddiannus i gysylltu â'r achwynydd. Mae'r achos wedi cael ei oedi ac nid oes gwaith ychwanegol ar yr achos wedi digwydd. Nid oes penderfyniad wedi bod ar os bydd y gŵyn yn cael ei hymchwilio neu'n cael ei thrin OTBI ac mae 12 mis wedi mynd heibio ers i'r gŵyn gael ei dderbyn. | ? | Nid yw'n briodol i gŵyn i beidio â chael unrhyw weithredu arni am dros 12 mis. Lle mae cwyn yn cael ei dderbyn, dylai gael ei hasesu a'r penderfyniadau arferol yn cael eu gwneud am ei ddifrifoldeb a sut y gallai'r mater symud ymlaen. Lle mae pob ymdrech resymol i gysylltu ag achwynydd wedi methu, dylai'r AP ystyried y ffordd fwyaf priodol i symud y mater yn ei flaen. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau ynghylch cofnodi, ymchwilio a pheidio â gweithredu ymhellach os yw'n briodol.<br><br>Bydd adroddiad yn ofynnol os yw ymchwiliad yn briodol ac mae mwy na 12 mis wedi mynd heibio. |

Atodiad A

# ADRODDIAD AMSEROLDEB

*Rheoliad 19, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 / Rheoliad 13, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020*

<table>
<tr><td>Cyfeirnod yr Achos:</td><td></td><td>Dyddiad y cafodd y gŵyn ei wneud neu daeth ymddygiad/ /DSI i sylw'r AP:</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="4">Swyddog(ion) o dan ymchwiliad wedi cael ei/eu hysbysu:</td><td>Dyddiad y Cyflwynwyd</td><td colspan="2">Enw'r Swyddog & Rhif Gwarant</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Crynodeb byr o gŵyn/ymddygiad/mater DSI</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Ffactorcenedlaethol Centurion</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Cynnydd yr ymchwiliad hyd yn hyn:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Rheswm dros hyd yr amser y cymerwyd i ymchwilio hyd yn hyn:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Crynodeb o gamau i'w cymryd i ddod â'r ymchwiliad i ben:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno i'r AP:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Rhesymau (os o gwbl) pam nad yw'r adroddiad hwn yn gallu cael ei ddarparu i wrthrych(au) / achwynydd/ partïon â diddordeb</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adroddiad Amseroldeb wedi'i gwblhau:</td><td></td><td>Awdur:</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad Cyflwynwyd Adroddiad Amseroldeb i'r LPB:</td><td></td><td>Dyddiad Cyflwynwyd Adroddiad Amseroldeb i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (SAYH):</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="4">Dyddiad y darparwyd Adroddiad Amseroldeb i achwynydd / partïon â diddordeb (os yn gymwys):</td><td>Enw'r Achwynydd / Parti â Diddordeb</td><td colspan="2">Dyddiad yr anfonwyd:</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

Cyhoeddwyd Mis Mawrth 2024

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE